

# Cynllun Dwysáu Triniaeth

## Gwneud y penderfyniadau iawn pan fyddwch chi'n sâl yn yr ysbyty.

**Canllaw i bobl sy'n 18 oed ac yn hŷn sy'n derbyn gofal iechyd, eu teuluoedd a'u gofalwyr.**

ABUHB/ PIU 1719/1 Medi 2024 Dyddiad dod I ben: Medi 2027

# Beth yw Cynllun Dwysáu Triniaeth?



**Mae'r tîm gofal iechyd yn defnyddio ffurflen i gofnodi cynllun gofal unigol i'w ddefnyddio os yw unigolyn yn mynd yn sâl iawn, ei gyflwr yn dirywio, neu os oes argyfwng yn ei gyflwr.** Enw'r ffurflen hon yw Cynllun Dwysáu Triniaeth (a elwir yn Treatment Escalation Plan neu TEP yn Saesneg). Mae'r Cynllun Dwysáu Triniaeth yn canolbwyntio ar ba driniaethau a gofal a allai fod o'r budd mwyaf i'r unigolyn, a'r rhai na fyddant efallai, mor ddefnyddiol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio i roi arweiniad i'r tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch chi tra byddwch chi yn yr ysbyty.

## Pam ei bod hi'n bwysig i mi gael Cynllun Dwysáu Triniaeth?

Mae angen i'r tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch chi ystyried y mathau o driniaethau a allai fod o fudd i chi tra byddwch chi yn yr ysbyty. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cael gofal da. Bydd y math o driniaeth a'r ffordd orau o reoli'ch cyflwr yn cael eu cofnodi yn y Cynllun Dwysáu Triniaeth. Yn gryno:

- Mae'r wybodaeth yn y Cynllun Dwysáu Triniaeth yn helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wybod pa driniaethau fydd yn eich helpu chi a pha rai na fyddant yn helpu mewn argyfwng neu pan fyddwch chi'n sâl iawn.
- Mae'r Cynllun Dwysáu Triniaeth yn eich annog chi a'ch clinigydd i drafod agweddau penodol ar driniaethau brys ymlaen llaw, gan wneud yn siŵr bod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud a'u cynnwys yn eich Cynllun.
- Mae'r Cynllun yn golygu na fyddwch chi'n derbyn triniaethau nad ydych chi eu heisiau.



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

## Pa fath o driniaethau sy'n cael eu cynnwys mewn Cynllun Dwysáu Triniaeth?

Gall y Cynllun gynnwys amrywiaeth o driniaethau i'w hystyried, er enghraifft:

- A ddylech chi gael eich derbyn i ysbyty arall
- A ddylech chi gael eich derbyn i'r uned gofal dwys
- A ddylech chi fod ar beiriant anadlu
- A oes angen dialysis arennol arnoch chi
- A ddylid rhoi meddyginiaeth neu hylif i chi drwy wythïen
- A ddylid defnyddio dadebru cardio-anadlol(CPR)

Efallai na fydd rhai o'r pethau hyn yn eich helpu chi. Byddwn yn trafod yr holl opsiynau triniaeth a gofal gyda chi a'r bobl sydd agosaf atoch chi.

## A fyddaf i'n cael cymryd rhan yn y drafodaeth?

**Byddwch.** Mae'n bwysig trafod a chwblhau ffurflen Cynllun Dwysáu Triniaeth cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael eich derbyn i'r ysbyty. Mae'n rhoi'r cyfle i'r meddygon a'r tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch chi drafod a phenderfynu gyda chi, a'r bobl sy'n agos atoch chi, pa driniaethau a gofal y dylid eu cynnig os byddwch chi'n mynd yn fwy sâl.

Os yw'r tîm clinigol yn credu eich bod yn annhebygol o wella, byddant yn siarad â chi a'r bobl sydd agosaf atoch chi. Mae hyn yn bwysig er mwyn penderfynu pa ofal a thriniaeth fydd orau i chi a beth yw eich dymuniadau.

## A yw fy nheulu, fy ngofalwyr a'r bobl sydd agosaf ataf i yn cael cymryd rhan yn y drafodaeth am y Cynllun Dwysáu Triniaeth?

**Ydyn.** Efallai yr hoffech chi gael eich teulu, eich gofalwyr neu'r bobl sydd agosaf atoch chi, gyda chi i drafod yr opsiynau sydd ar gael, a chytuno â'r penderfyniad, naill ai'n bersonol neu drwy alwad ffôn neu fideo. Gallwn wneud hyn gyda'ch caniatâd chi. Ar ôl trafod, bydd y meddyg yn cwblhau'r Cynllun ac yn ei osod ar flaen eich cofnodion meddygol. Bydd unrhyw un sy'n ymwneud â'ch gofal yn gallu ei weld yn hawdd ar unrhyw adeg.

## Pwy sy'n penderfynu pa driniaeth sydd orau i mi?

Yr uwch feddyg sy'n gyfrifol am eich gofal ynghyd â'i dîm clinigol fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am benderfynu pa driniaethau a gofal y dylid eu rhoi os bydd eich cyflwr yn gwaethygu. Mae'n bosibl bod triniaethau ar gael na fyddant yn helpu'ch cyflwr. Bydd y rhain yn cael eu trafod gyda chi a'r bobl sydd agosaf atoch chi, a bydd y rhesymau pam na fydd triniaeth benodol yn gweithio yn cael eu hesbonio'n llawn.

Mae'n bosibl bod triniaethau ar gael lle nad yw'n glir a fyddent yn helpu, a thriniaethau a allai waethygu ansawdd eich bywyd yn y tymor hwy. Mae eich barn a'ch dymuniadau chi yn hanfodol wrth benderfynu ar yr opsiynau triniaeth hyn.

Mae hefyd yn bosibl ei bod yn amlwg y bydd triniaethau eraill yn eich helpu chi, ond y byddwch chi'n teimlo eu bod yn annerbyniol. Byddwn yn parchu eich dewis chi. Bydd y tîm gofal iechyd bob amser yn siarad â chi am eich Cynllun Dwysáu Triniaeth.

## Beth fydd yn digwydd os nad ydw i eisiau siarad am hyn?

Efallai nad ydych chi'n dymuno bod yn rhan o drafodaethau o'r fath. Byddwn yn parchu eich penderfyniad bob amser. Os nad ydych chi eisiau bod yn rhan o'r drafodaeth, bydd y tîm yn gofyn am eich caniatâd i drafod opsiynau triniaeth gyda'r bobl sydd agosaf atoch chi.



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

## Beth fydd yn digwydd os na allaf i gymryd rhan neu os nad ydw i'n deall y drafodaeth?

Os bydd hyn yn digwydd, bydd y tîm clinigol yn cwblhau asesiad lles pennaf. Os nad oes gennych chi alluedd meddyliol i benderfynu drosoch eich hun, a bod angen i bobl eraill wneud y penderfyniadau hyn ar eich rhan, byddwn yn cynnal cyfarfod lles pennaf. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gynnwys eich teulu, eich gofalwyr neu'r bobl sydd agosaf atoch chi yn y drafodaeth.

Fodd bynnag, pan fo argyfwng, efallai na fydd amser i gynnal cyfarfod. Bydd y tîm gofal iechyd yn ystyried yr holl opsiynau triniaeth sydd er eich lles pennaf ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl sydd agosaf atoch chi.

## Beth fydd yn digwydd os ydw i'n rhy sâl i drafod fy nhriniaeth?

Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u hyfforddi i wneud popeth o fewn eu gallu i'ch helpu chi i ddeall penderfyniadau y nghylch eich triniaeth a'ch gofal. Ond, weithiau mae pobl yn rhy sâl i gymryd rhan yn y drafodaeth. Efallai eich bod eisoes wedi gwneud penderfyniadau ynghylch eich gofal iechyd. Mae'n bosibl eich bod chi wedi ysgrifennu Cynllun Gofal at y Dyfodol, Penderfyniad Ymlaen Llaw i Wrthod Triniaeth neu eich bod wedi penodi Atwrneiaeth Arhosol ar gyfer iechyd a llesiant.

Os nad oes unrhyw benderfyniadau na chyfarwyddiadau ymlaen llaw eraill wedi'u cofnodi, bydd yn rhaid i'r tîm gofal iechyd benderfynu ar opsiynau triniaeth drwy drafod ag aelodau eich teulu, eich gofalwyr a'r bobl sydd agosaf atoch chi, er mwyn cael cymaint o wybodaeth â phosibl am eich safbwynt yn y gorffennol.

## A ellir newid fy Nghynllun Dwysáu Triniaeth?

**Gellir.** Canllaw yn unig yw'r Cynllun a gellir ei newid wrth i'ch cyflwr newid. Dylech chi, neu'r bobl sydd agosaf atoch chi, roi gwybod i aelod o'r tîm gofal iechyd os ydych chi'n dymuno trafod eich Cynllun Dwysáu Triniaeth.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno â'r Cynllun Dwysáu Triniaeth?

Nid yw anghytundebau ynghylch Cynlluniau Dwysáu Triniaeth yn c odi yn aml iawn o gwbl, oherwydd bod pobl a'u teuluoedd wedi'u cynnwys yn y trafodaethau, a'r opsiynau triniaeth yn cael eu hegluro. Yn y wlad hon, gall oedolyn wrthod triniaeth. Mae'n rhaid i'r tîm gofal iechyd barchu'r penderfyniad hwn, hyd yn oed os ydyn nhw'n anghytuno.

Fodd bynnag, ni allwch chi, eich perthnasau neu'r bobl sydd agosaf atoch chi, fynnu cael triniaeth os yw'r tîm clinigol yn credu ei bod yn niweidiol neu na fydd o fudd i chi. Er enghraifft, ni allwch chi neu'r bobl sydd agosaf atoch chi, fynnu bod llawfeddyg yn cynnal llawdriniaeth os yw'r llawfeddyg yn credu na fyddai'n eich helpu. Mae'n bosibl y bydd rhai sefyllfaoedd lle nad yw'r tîm gofal iechyd yn cynnig triniaeth oherwydd eu bod yn teimlo y byddai'r driniaeth yn gwneud mwy o ddrwg nag o les.

Os nad ydych chi, eich perthynas neu'r bobl sydd agosaf atoch chi yn cytuno â phenderfyniad yn y Cynllun Dwysáu Triniaeth, mae'n bwysig eich bod yn dweud hynny wrth y tîm clinigol. Byddant yn trafod eich cyflwr a'ch triniaeth gyda thîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys mwy o weithwyr proffesiynol er mwyn casglu mwy o safbwyntiau. Os na ellir cytuno ar y Cynllun bryd hynny, byddwn yn gofyn am farn arall gan feddyg ymgynghorol annibynnol.

## Am ba hyd y bydd fy Nghynllun Dwysáu Triniaeth yn ei le?

Bydd y Cynllun yn berthnasol i'ch arhosiad presennol yn yr ysbyty. Os cewch chi eich rhyddhau o'r ysbyty ac yna, eich aildderbyn yn y dyfodol, byddwn yn adolygu eich cyflwr, ei drafod gyda chi ac yn cwblhau Cynllun Dwysáu Triniaeth newydd.

## Wrth bwy y dylwn i ddweud bod gen i Gynllun Dwysáu Triniaeth?

Yn ogystal â thrafod hyn gyda'ch teulu a'r bobl sydd agosaf atoch chi, efallai y byddwch hefyd am siarad â phobl eraill am y penderfyniadau a wneir o ran eich gofal a'ch triniaeth. Gall y rhain gynnwys:

- Ffrindiau a gofalwyr
- Meddygon teulu
- Unrhyw grwpiau cymorth rydych chi'n rhan ohonynt
- Unrhyw gynghorwyr ysbrydol
- Eiriolwyr sy'n eich helpu i wneud penderfyniadau.



## Beth os oes gennyf i fwy o gwestiynau?

Mae'n bwysig bod gennych chi, eich perthnasau a'r bobl sydd agosaf atoch chi, amser i ystyried yr hyn sy'n cael ei ddweud, a'ch bod yn gofyn cwestiynau am unrhyw beth nad yw'n glir. Bydd y tîm clinigol sy'n gofalu amdanoch chi ar gael i drafod unrhyw bryderon gyda chi, a'r bobl sy'n agos atoch chi. Rhowch wybod i'r tîm gofal iechyd os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu bryderon na all y tîm clinigol eu datrys, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) a all eich helpu i ddatrys eich pryderon.

### Cysylltwch â ni

**Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS)**
Rhif ffôn: 01633 493753
E-bost: ABB.PALS@wales.nhs.uk

Os ydych chi'n credu nad yw eich pryderon wedi cael sylw a'ch bod am wneud cwyn ffurfiol, cysylltwch â'r tîm "Gweithio i Wella":

**Tîm Pryderon Gweithio i Wella (PTR)**
Rhif ffôn: 01495 745656
E-bost: Puttingthingsright.ABHB@wales.nhs.uk

Os hoffech chi gael cymorth eiriolwr annibynnol i'ch helpu i fynegi pryder, gallwch gysylltu â Llais am gefnogaeth.

Rhif ffôn: 01633 838516
E-bost: gwentadvocacy@llaiscymru.org

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

ABUHB/PIU: 1719/1 Medi 2024 Dyddiad dod I ben: Medi 2027